

# Pecyn Adnoddau Addysg – Gwers 3

Cael eich ysbrydoli gan Dylan Thomas – Rhan 2

## Cyfnod Allweddol 2

Hanes a Llythrennedd

Cael eich ysbrydoli  
gan Dylan Thomas  
i ysgrifennu am eich  
ardal



## Nodiadau rhagarweiniol

Mae'r gwersi blaenorol wedi edrych ar beth a ysbrydolodd Dylan Thomas i ysgrifennu a sut roedd e'n defnyddio geiriau. Defnyddiwch y wybodaeth hon fel ysbrydoliaeth i ysgrifennu am leoedd yn ardal yr ysgol.

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm – Saesneg

**Llafaredd – Sgiliau (5)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu gallu i ddefnyddio amrywiaeth o gystrawennau brawddegol a geirfa yn gywir, gan gynnwys ymadroddion sy'n eu galluogi i drafod eu gwaith.

**Darllen – Sgiliau (4)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion adnabod a deall nodweddion gwahanol ffurfiau o safbwynt iaith, strwythur a chyflwyniad.

**Ysgrifennu – Sgiliau (4)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddewis a defnyddio geirfa addas.

**Ysgrifennu – Sgiliau (5)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio ffurfiau Saesneg safonol: enwau.

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm – Cymraeg

**Llafaredd – Ystod (4)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion weithio'n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelodau o ddsbarth.

**Llafaredd – Ystod (7)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion gynyddu eu hyder wrth ddefnyddio ieithoedd drwy dynnu ar eu gwybodaeth o'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill.

**Ysgrifennu – Sgiliau (4)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddewis a defnyddio geirfa briodol ac iaith goeth, rywiog a'i defnyddio i greu effeithiau.

**Ysgrifennu – Ystod (3)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau, e.e. stori, cerdd.

**Ysgrifennu – Ystod (4)** – Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth eang o symbyliadau clywedol, gweledol a chlyweledol, e.e. stori, cerdd, eu gweithgareddau a'u profiadau yn y dosbarth a thu hwnt.

### Trawsgwricwlaidd / y Cwricwlwm Cymreig

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr 7-14 oed ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

### Cysylltiadau â'r Fframwaith Sgiliau – Datblygu cyfathrebu ar draws y cwricwlwm

**Ysgrifennu** – Cyfleu syniadau ac emosiynau - Cyfleu syniadau, emosiynau a gwybodaeth drwy waith mwy cymhleth mewn ystod o gyfryngau.

### Symbyliadau

Dyfyniadau o gerddi Dylan Thomas – 'Poem in October'\*; 'On His Birthday'\*; 'Over Sir John's Hill'\* a 'Fern Hill' / dyfyniadau o 'Under Milk Wood'\* neu o Brosiectau Estyn Allan Cadw ar gyfer Ysgolion – 'Dros Ysgwydd Dylan', 'O Dan Bin Ysgrifennu Dylan' ac 'Ym Mhoced Dylan'.

*Sylwer: bydd angen i'r athro gael gafael ar bopeth a nodir â \*.*

### Adnoddau

Defnyddiwch unrhyw adnoddau o Wersi 1 – 3 yn ôl yr angen. Anghenion ychwanegol – iPad neu dechnoleg tabledi arall sy'n cynnwys cyfarpar recordio fideo.

Dylan Thomas

## Amcan(ion) Dysgu

- Archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd mae Dylan Thomas yn dewis geiriau'n ofalus ar gyfer ysgrifennu'n ddisgrifiadol am yr ardal leol.

## Meini Prawf Llwyddiant – Erbyn diwedd y gwersi, bydd y disgyblion yn gallu

- Ysgrifennu brawddegau disgrifiadol byr sydd wedi cael eu hysbrydoli gan waith Dylan Thomas am olygfeydd o'r ardal o gwmpas yr ysgol.

## Gweithgaredd Dechreuol – y dosbarth cyfan – 30 munud

- Chwaraewch un o Brosiectau Estyn Allan Cadw ar Dylan Thomas 100 – 'Dros Ysgwydd Dylan', 'O Dan Bin Ysgrifennu Dylan' neu 'Ym Mhoced Dylan'.
- Eglurwch sut y cafodd y prosiectau hyn eu hysbrydoli. Roedd Dylan Thomas yn cael ei ysbrydoli'n uniongyrchol gan yr hyn roedd yn ei weld, ei glywed a'i deimlo. Y symbyliadau ar gyfer y prosiectau hyn oedd disgyblion yn gweithio yn yr amgylchedd – yn cofnodi'n uniongyrchol ar iPad, heb unrhyw ysgrifennu ymlaen llaw, yr hyn roedden nhw'n ei weld, ei glywed a'i deimlo mewn ymateb i olygfeydd o Dalacharn.
- Dylid ymarfer defnyddio technoleg iPad ar gyfer cofnodi unrhyw waith blaenorol cyn gweithio yn yr awyr agored.

## Archwilio – Gwaith Pâr / Gwaith Grŵp – Gall hyn gymryd cryn amser – dylid caniatáu bore o leiaf (treuliwyd diwrnod cyfan ym mhob un o'r ysgolion a gymerodd ran yn y prosiect)

- Ewch am dro o gwmpas ardal yr ysgol, gan gynllunio ymlaen llaw fel bod y daith yn cynnwys 3-4 golygfa ysbrydoledig. Gellir gwneud hyn gyda'r disgyblion.
- Pan gyrhaeddwch chi fannau penodol, anogwch y disgyblion i ddweud ar goedd beth maen nhw'n ei weld, ei deimlo a'i glywed, gan ddefnyddio strategaethau Dylan Thomas a ddysgwyd eisoes yng Ngwersi 1-3. Dylai'r disgyblion recordio'i gilydd – a dylid annog pob disgybl i gymryd rhan. Dylai'r disgyblion dynnu ffotograff ar gyfer pob disgrifiad geiriol er mwyn ei ddefnyddio mewn gwaith estynedig yn y dyfodol.

## Sesiwn gyflawn – y dosbarth cyfan

Adolygwch yr 'ysgrifennu' gyda'r iPads pan fyddwch chi'n dychwelyd i'r ysgol. Chwaraewch ddyfyniadau o recordiadau'r disgyblion a thrafodwch sut y gellid defnyddio'r rhain fel ysbrydoliaeth ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

## Estyniad – Gall y gwaith dysgu hwn fod yn sail ar gyfer amrywiaeth o brosiectau

1. Barddoniaeth
2. Ysgrifennu disgrifiadol
3. Gwneud ffilm greadigol
4. Cyflwyniadau ar gyfer gwasanaeth yr ysgol

## Aps a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer ysgolion:

*Puppet Pals*

*Waterlogue*

*Colour Splash*

## Nodiadau ychwanegol

*Dylan Thomas*